

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf, Canolfan
Ddeintyddol Whitcombe**

5 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Ganolfan Deintyddol Whitcombe yn 19 Stryd Whitcombe, Aberdâr, ar 5 Ionawr 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Whitcombe yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a chanllawiau.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitcombe yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Aberdâr. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitcombe yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, ynghyd â nifer fach o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae tîm o staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, pum nyrs, dau dderbynnydd a rheolwr practis.

Mae Canolfan Ddeintyddol Whitcombe yn rhan o grŵp o chwe phractis deintyddol sy'n cael eu rheoli gan United Dental Ltd (Cymru).

3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol Whitcombe yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ati.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae polisïau a gweithdrefnau cyfoes er mwyn gwarchod diogelwch cleifion
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda, ac i'w gweld yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel
- Mae offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Mae gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel

Rydym yn argymhell y dylai'r practis wella'r canlynol:

- Arddangos gwybodaeth yn y practis, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gallai cleifion wneud cwyn
- Asesiadau risg ar gyfer sylweddau peryglus
- Hyfforddiant staff mewn dadheintio, amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a diogelu rhag ymbelydredd
- Trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygiadau gan gymheiriaid
- Cofnodi nodiadau cleifion

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiadur cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymhell bod y practis yn arddangos mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd er mwyn cefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r bobl yma yn barod eu cymwynas bob amser. Staff cyfeillgar iawn. Bob tro dw i'n cael fy ngweld ar amser fy apwyntiad."

"Dw i'n hapus yma, ac er fy mod i wedi derbyn llawer o driniaeth, mae'r staff wastad wedi sicrhau fy mod yn gyfforddus ac wedi fy nghysuro i."

"Mae staff y dderbynfa a staff y practis yn barod eu cymwynas ac yn hynaws ar bob adeg."

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod lle er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, er mwyn i gleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd y

rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi oedi cyn cael eu gweld gan y deintyddion, a'u bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis a oedd yn cynnwys manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng er mwyn i gleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom nodi bod diffyg taflenni/posteri hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried darparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd sy'n berthnasol i'w cleifion, megis ymwybyddiaeth o ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, a gwybodaeth gyffredinol am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid darparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.

Dylai'r practis hefyd ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i amrywiaeth ehangach o gleifion, megis trwy ddarparu gwybodaeth mewn fformatau ac ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion.

Gofal unigol

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron yn cael eu dosbarthu yn y dderbynfa, a'r canlyniadau'n cael eu pasio i reolwr y practis. Gwnaethom edrych ar sampl o holiaduron wedi'u cwblhau a oedd yn dangos bod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Yn ogystal â hyn, roedd gan y practis gynlluniau i roi blwch awgrymiadau yn y dderbynfa.

Gwelsom fod posteri wedi'u harddangos ac arnynt brisiau triniaeth y GIG, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Cawsom ar ddeall mai nifer fach yn unig o driniaethau preifat a oedd yn cael eu darparu, ond nid oedd rhestr o brisiau preifat wedi'i harddangos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid arddangos rhestr o brisiau preifat er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu llawn hysbysu am y costau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion preifat a chleifion y GIG leisio pryderon (cwynion). Gwelsom fod y weithdrefn ar y cyfan yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adwaenir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.¹ Roedd y polisi cwyno wedi'i arddangos yn y dderbynfa a'r manau aros, ac roedd yn cynnwys y sefydliadau perthnasol eraill i'r cleifion gysylltu â nhw. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd hwn yn cynnwys cyfeiriad at AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi cwyno a'r poster.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ers i United Dental gymryd drosodd. Gwelsom fod ffolder a thempled crynodeb lle byddai cwynion yn cael eu cofnodi. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gwella'r ffordd roedd yn cofnodi pryderon a leisiwyd ar lafar, er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn hawdd.

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion cleifion a chanfod bod angen gwelliannau. Gwnaethom argymhell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu dysgu a'r arferion gorau.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y practis wedi cymryd camau er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod y practis yn amlwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol ac wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom hefyd fod y brif nyrs wedi trefnu pob ystafell driniaeth yn yr un ffordd, a oedd yn golygu bod yr holl staff yn gallu dod o hyd i ddeunyddiau ac offer ni waeth pa ystafell driniaeth yr oeddent yn gweithio ynddi. Gwnaethom nodi bod hwn yn arfer da. Gwnaethom nodi bod dwy o'r cadeiriau a oedd y cael eu defnyddio gan staff yn ystafell driniaeth dau wedi cael eu rhwygo, ond dywedwyd wrthym fod cadeiriau newydd eisoes wedi cael eu harchebu.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ynglŷn â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)² a gweld bod taflenni data diogelwch

²COSHH yw'r gyfraith sy'n mynnu bod cyflogwyr yn rheoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar Wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch trwy ddilyn y ddolen <http://www.hse.gov.uk/cosh/index.htm>

wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd. Fodd bynnag, yn unol â'r canllawiau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, er y dylid cadw taflenni data diogelwch, dylid hefyd cwblhau asesiad risg sy'n benodol i'r gweithle a'r amgylchedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnal asesiadau risg COSHH sy'n benodol i'r practis yn ogystal â chadw taflenni data diogelwch.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.³ Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol – megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid – ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc penodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profi dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio'n cael eu cadw yn electronig, a chopi wrth gefn yn cael ei gadw
- Roedd offerynnau wedi'u storio'n briodol ac wedi'u dyddio

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05, sy'n benodol i Gymru.

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni welsom dystiolaeth bod pob nyrs ddeintyddol wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â dadheintio gwblhau hyfforddiant a dylid cadw cofnodion hyfforddiant.

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg/cwmpo). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Dylid cwblhau'r hyfforddiant hwn bob blwyddyn yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU. Gwelsom mai'r tro diwethaf i bedwar aelod o staff gwblhau'r hyfforddiant hwn oedd yng nghanol mis Rhagfyr 2014, ond rhoddwyd sicrwydd inni fod hyfforddiant diweddarau wedi cael ei drefnu ar gyfer pob aelod o staff yn yr wythnos ar ôl yr arolygiad.

Diogelu

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisiâu diogelu ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Yr hyn sydd ei wella

Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Offer radiograffig

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl ddeintyddion a oedd yn cymryd rhan yn y broses o gynnal sganiau radiograffig wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â

gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, nid oedd pob nyrs ddeintyddol wedi cwblhau hyfforddiant mewn ymbelydredd Ïoneiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant mewn ymbelydredd Ïoneiddio.

Yn sgil newid perchnogion y practis yn 2015, gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad sicrhau ansawdd o sganiau radiograffig ym mis Mehefin 2015, yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IR(ME)R). Rhoddwyd y practis sicrwydd inni fod ganddo raglen sicrhau ansawdd sganiau radiograffig barhaol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion ar gyfer pob un o'r deintyddion yn y practis. Roedd un o'r deintyddion wedi dechrau gweithio yn y practis yn ddiweddar, felly ni wnaethom ei gynnwys yn ein hadolygiad. Ar y cyfan, gwelsom fod angen gwella'r cofnodion, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- Nid oedd cydsyniad cleifion yn cael ei gofnodi bob amser
- Nid oedd cynlluniau triniaeth yn cael eu darparu a'u llofnodi gan y claf yn gyson, yn unol â Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Nid oedd opsiynau triniaeth a thrafodaethau â chleifion bob amser yn cael eu cofnodi yn y nodiadau
- Nid oedd hanes cymdeithasol, gan gynnwys manylion ynglŷn ag a yw'r claf yn ysmegu, ei ddeiet a hylendid y geg, yn cael ei gofnodi bob amser. Mae hyn yn bwysig er mwyn nodi risg claf o bydredd y dannedd a chanser y geg
- Nid oedd sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi bob amser. Argymhellir bod y broses hon yn cael ei chofnodi

⁴ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd yn gyson. Nid yw cydlofnodi'n orfodol, ond rhaid bod gan y practis system gyson er mwyn sicrhau bod y deintydd yn gwirio pob hanes meddygol
- Roedd nifer o achosion lle roedd dant claf wedi cael ei dynnu, ond nid oedd unrhyw sganiau pelydr-X wedi'u cynnal (byddai hwn yn arfer a argymhellir) ac nid oedd rheswm dros hyn wedi cael ei gofnodi
- Nid oedd archwiliadau periodontol sylfaenol a gwybodaeth am ddeintgig y claf wedi cael eu cofnodi yn y nodiadau bob amser

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol:

- ***Cydsyniad y claf***
- ***Cynlluniau triniaeth***
- ***Opsiynau triniaeth a thrafodaethau â chleifion***
- ***Hanes cymdeithasol***
- ***Dull cyson o wirio hanes meddygol***
- ***Dylid cynnal sganiau pelydr-X fel sy'n briodol, a dylid nodi esboniadau pam nad oes angen sgan pelydr-X***
- ***Archwiliad periodontol sylfaenol a gwybodaeth am ddeintgig y claf, ynghyd â manylion unrhyw driniaeth a gynigir i'r claf***

O ystyried y gwelliannau y mae angen eu gwneud i gofnodion cleifion, gwnaethom argymhell y dylai'r deintyddion gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol gyda'i gilydd er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd a'r arfer gorau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgwyd o ganlyniad i hyn.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod gan y deintyddion fynediad at

gyfarwyddwr clinigol, a oedd yn darparu unrhyw gymorth clinigol yn ôl yr angen, ac yn cynnal arfarniadau rheolaidd.

Fodd bynnag, nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom drafod amrywiaeth o destunau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru, a dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi ystyried trefnu amser er mwyn i staff gynnal archwiliadau fel tîm.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ysgrifenedig ar waith.

Roedd y practis wedi cael ei gaffael gan United Dental Ltd yn Ebrill 2015, a dywedwyd wrthym am y gwelliannau a oedd wedi'u gwneud i'r amgylchedd/cyfleusterau, a hefyd i'r trefniadau rheoli. Rheolwr y practis, sydd newydd ddechrau'r swydd, sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis, a'u bod yn hapus gyda'r trefniadau rheoli newydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Oherwydd bod rheolwr y practis yn newydd i'r swydd, nid oedd arfarniadau wedi cael eu cynnal ar gyfer staff, ond dywedwyd bod y rhain yn yr arfaeth. Dywedwyd wrthym fod arfarniadau ar gyfer y deintyddion yn cael eu cynnal gan y cyfarwyddwr clinigol.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Gwnaethom nodi bod angen diweddarau dwy dystysgrif, a gwnaethom drefniadau ar gyfer hyn ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Gwelsom fod angen brechiad atgyfnerthu ar un aelod o staff, ac roedd y dyddiad ar gyfer gwneud hyn wedi mynd heibio. Gwnaethom argymhell bod y mater hwn yn derbyn sylw.

Gwelsom fod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu, a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gweld tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u bod yn drefnus. Gwelsom fod nifer o wahanol bolisïau a oedd yn ymwneud â'r un meysydd, a

gwnaethom argymell bod y practis yn cyfuno'r wybodaeth hon er mwyn ei gwneud yn haws i staff ddod o hyd iddi, a'i diweddarau fel sy'n briodol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn fisol, a bod y rhain yn cael eu cofnodi. Yn flaenorol, roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn bennaf gyda'r staff nyrsio, ond gwnaeth rheolwr y practis gadarnhau ei gynllun ar gyfer cynnwys pob aelod o staff y practis yn y cyfarfodydd yn y dyfodol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Whitcombe yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o wasanaethau'r GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau rydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁵ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁶ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Whitcombe

Dyddiad yr arolygiad: 5 Ionawr 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
6	Dylid darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 1.1			
6	Dylid arddangos rhestr o brisiau preifat er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu llawn hysbysu am y costau sy'n gysylltiedig â'u triniaeth ddeintyddol.	Safon 2.4.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol			
7	Dylid ychwanegu manylion cyswllt AGIC at y polisi cwyno a'r posteri.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		(Diwygio) 2011, Adran 15(4a)			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
9	Dylid cynnal asesiadau risg COSHH sy'n benodol i'r practis yn ogystal â chadw taflenni data diogelwch.	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch			
9	Dylai'r holl staff sy'n ymwneud â dadheintio gwblhau hyfforddiant, a dylai cofnodion hyfforddiant gael eu cadw.	Canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 24o			
10	Dylai'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	Safonau Iechyd a Gofal 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	Dylai pob nyrs ddeintyddol gwblhau hyfforddiant mewn ymbelydredd ïoneiddio.	Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Datblygiad Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Proffesiynol			
12	Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol: • Cydsyniad y claf • Cynlluniau triniaeth • Opsiynau triniaeth a thrafodaethau â chleifion • Hanes cymdeithasol • Dull cyson o wirio hanes meddygol • Dylid cynnal sganiau pelydr-X fel sy'n briodol, a dylid nodi	Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	esboniadau pam nad oes angen sgan pelydr-X Archwiliad periodontol sylfaenol a gwybodaeth am ddeintgig y claf, ynghyd â manylion unrhyw driniaeth a gynigir i'r claf				
12	Dylai'r deintyddion yn y practis gynnal archwiliad o'r cofnodion clinigol a rhannu'r hyn a ddysgir o ganlyniad i hyn.	Safonau lechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4			
12	Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.	Safonau lechyd a Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat, Adran 14(2)			
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
	<i>Nid oes angen unrhyw welliannau</i>				

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: